Cyngor Sir Fynwy

# Ein Cynllun Cydraddoldeb

## 2024 i 2028








**Llyfryn hawdd ei ddeall**

# Pwy ydyn ni



**Cyngor Sir Fynwy** ydyn ni.




Rydyn ni yng ngofal gwasanaethau yn Sir Fynwy, tebyg i ysgolion, bysus ac ysbytai.



Rydyn ni'n gwneud penderfyniadau pwysig am wasanaethau, ffyrdd ac adeiladu, i helpu pawb yn Sir Fynwy.



Rydyn ni eisiau i bawb yn Sir Fynwy gael eu trin mewn ffordd deg.

# Ein gwerthoedd



Ein **gwerthoedd** yw'r pethau sy'n bwysig i ni. Mae'r dudalen hon yn dweud wrthych chi am ein gwerthoedd.



- **Gweithio fel tîm**
  Rydyn ni eisiau i bawb weithio'n dda gyda'i gilydd fel tîm.



- **Bod yn agored**
  Rydyn ni eisiau i bawb gael cyfle i gymryd rhan a dweud wrthyn ni beth sy'n bwysig iddyn nhw.





- **Bod yn hyblyg**
  Rydyn ni eisiau bod yn hyblyg fel y gallwn weithio yn y ffordd orau.

- **Bod yn deg**
  Fe fyddwn ni bob amser yn ceisio trin pawb mewn ffordd deg.



- **Bod yn garedig**
  Fe fyddwn yn garedig wrth bawb.



Mae ganddon ni hefyd gynlluniau i wneud Sir Fynwy yn lle da i fyw.

# Am ein Cynllun Cydraddoldeb




**Cydraddoldeb** yw pan fydd pobl yn cael eu trin yn deg a phawb yn cael yr un cyfle.



**Anghydraddoldeb** yw gwrthwyneb tegwch. Mae'n golygu nad yw pethau'n deg i bawb.




Rydyn ni yn ysgrifennu cynllun bob 4 blynedd a elwir ein **Cynllun Cydraddoldeb**.




Rydyn ni newydd ysgrifennu ein Cynllun Cydraddoldeb ar gyfer 2024 i 2028. Mae'n dweud wrthych sut byddwn yn gwneud pethau'n well fel bod mwy o gydraddoldeb.

# Beth mae'r gyfraith yn ddweud




Mae cyfreithiau ym Mhrydain i wneud yn siŵr y caiff pobl eu trin yn deg.




Mae'n rhaid i ni:

- ddilyn y gyfraith i ddiogelu pobl a rhoi yr un cyfle i bawb mewn bywyd
- dangos ein bod yn dilyn y gyfraith
- ysgrifennu Cynllun Cydraddoldeb a gwneud yn siwr ein bod yn ei ddilyn.



Mae gan y llywodraeth yng Nghymru hefyd rai nodau y maent eisiau i ni helpu gyda nhw.



Bydd ein Cynllun Cydraddoldeb yn eu helpu i gyflawni eu nodau i wneud bywyd yn fwy teg i bawb yng Nghymru.

# Anghydraddoldeb yn Sir Fynwy



Mae Sir Fynwy yn fawr ac mae cymysgedd o bobl yn byw yma.





Mae rhai pobl yn byw yn y wlad a rhai yn byw yn y dref.





Mae rhai pobl yn gyfoethog a phobl eraill yn dlawd.



Efallai nad yw rhai pobl yn cael eu trin yn deg oherwydd pethau fel eu hanabledd, oed neu gefndir.



Fe wnaethon ni feddwl am y pethau yma pan wnaethon ni ysgrifennu ein Cynllun Cydraddoldeb.

# Ein ymgynghoriad




Fe wnaethon ni ofyn i lawer o bobl beth oedd eu barn am ein Cynllun Cydraddoldeb ar gyfer 2024 i 2028. Enw hyn yw **ymgynghoriad**.



Fe wnaethon ni siarad gyda phobl mewn rhai grwpiau lleol.




Fe wnaeth rhai pobl ysgrifennu atebion i rai cwestiynau mewn arolwg i ddweud beth oedd eu barn.




Fe wnaethon ni hefyd edrych ar wybodaeth o ymgynghoriadau eraill a chael cyngor gan dîm a gaiff ei alw yn **Bwyllgor Craffu Pobl.**




Fe wnaethon ni feddwl am beth ddywedodd pawb a gwella ein cynllun. Mae'r llyfryn yma yn dweud wrthych chi am ein cynllun newydd.

# Ein Amcanion




Mae gan ein cynllun 7 **amcan** ar gyfer 2024 i 2028.




Mae **amcanion** yn nodau yr ydym eisiau eu cyflawni. Bydd ein holl amcanion yn dda ar gyfer llawer o wahanol bobl.



Mae gweddill y llyfryn yma'n dweud wrthych am y 7 cynllun sy'n rhan o'n Cynllun Cydraddoldeb.

Amcan 1

# Y dechrau gorau mewn bywyd




Rydyn ni eisiau i bob plentyn gael y dechrau gorau mewn bywyd. Mae hyn yn golygu y byddant yn cael bywyd gwell pan fyddant yn oedolion, gyda iechyd gwell a swyddi gwell.

Rydyn ni'n gwybod




- bod y 1000 diwrnod cyntaf o fywyd plentyn yn gwneud gwahaniaeth mawr i'w dyfodol.

- nad oes digon o leoedd mewn meithrinfeydd neu gyda gwarchodwyr plant.



- bod 27% o blant yn Sir Fynwy mewn teuluoedd sy'n dlawd iawn.

- bod plant nad ydyn nhw'n meddwl am eu hunain fel bachgen neu ferch yn fwy tebygol o gael eu bwlio.



- bod plant ysgolion uwchradd yn colli mwy o ddyddiau mewn nag erioed o'r blaen.

## Ein nodau

Byddwn yn anelu i



- weithio gyda sefydliadau eraill i wneud gwasanaethau iechyd yn fwy cyfartal i bob plentyn.
- rhoi prydau ysgol am ddim i fwy o blant.




- gwneud iddi gostio llai o arian i blant yn yr ysgol.
- gwneud yn siŵr fod gan ein holl ysgolion rywun sy'n helpu plant sy'n dlawd iawn neu angen cymorth.




- ysgrifennu cynllun newydd i helpu plant ymddwyn mewn ffordd dda.
- dal ati i redeg prosiect i stopio plant rhag colli'r ysgol.



- defnyddio gwybodaeth a gasglwyd gan ysgolion am fwlio a chael eu trin yn wael neu annheg.
- dysgu plant fod pawb yn gyfartal pwy bynnag sy'n eu denu.



- gweithio gyda chyrff eraill i wneud lleoedd mewn meithrinfeydd neu gyda gwarchodwyr plant.

Amcan 2

# Swyddi da




Rydyn ni eisiau i bawb gael swyddi da a chael eu trin yn deg yn y gwaith. Gall hyn arwain at fywyd gwell, gyda gwell iechyd a **llesiant**.

Mae **llesiant** yn golygu pa mor iach a hapus yr ydych yn teimlo a faint o egni sydd gennych chi.

Rydyn ni'n gwybod bod:



- cost pethau rydych eu hangen fel bwyd a gwres wedi codi.
- pobl anabl yn llai tebyg o gael swydd ac yn fwy tebyg o fod yn dlawd iawn.




- tâl i bobl anabl wedi aros yr un fath tra bod tâl pobl eraill wedi codi.
- pobl wyn yn fwy tebyg o gael swyddi da.




- llawer mwy o fenywod na dynion yn gweithio'n rhan-amser.

**Ein nodau**
Byddwn yn anelu i

- annog cwmnïau i gael teitl a elwir yn **hyderus o ran anabledd**.




- newid ein rheolau fel y gallwn wneud yn siŵr fod ganddon ni gymysgedd dda o bobl sy'n gweithio i ni ac yn y cwmnïau rydyn ni'n prynu ganddyn nhw.



- gweithio gyda busnesau lleol sydd â staff.




- cadw ein bysus yn rhedeg yn dda a gwneud yn siŵr fod pawb yn medru eu defnyddio.



- helpu ein busnesau yng nghefn gwlad i gael cymorth ac arian ar gyfer prosiectau i'w helpu i gynnwys mwy o bobl wahanol.




- helpu i wneud 6240 o swyddi newydd.

Amcan 3

# Cymunedau cynhwysol



Rydyn ni eisiau i **gymunedau** fod yn **gynhwysol.** Mae **cymunedau** yn golygu'r ardaloedd lle'r ydych yn byw a'r bobl rydych chi'n eu hadnabod. Mae **cynhwysol** yn golygu bod pawb yn cael ei gynnwys ac yn medru gwneud yr un pethau.









Rydyn ni'n gwybod bod

- pobl sy'n lesbian, hoyw, deurywiol neu drawsrywiol yn llai tebyg o deimlo eu bod yn perthyn i'r ardal leol.
- mwy o ddynion nag o ferched yn teimlo'n ddiogel yn eu cartref neu wrth gerdded.
- nifer y troseddau a wneir i bobl oherwydd nad ydyn nhw'n eu hoffi yn cynyddu.
- pobl anabl yn llawer mwy tebyg o gael eu hanafu gan rywun arall yn y cartref.
- nifer y bobl 65 oed neu fwy yn cynyddu.

## Ein nodau

Byddwn yn anelu i



- bod yn hapus gyda'r gwahaniaeth rhwng pobl a chynnal digwyddiadau i ddweud wrth bobl am hyn.




- cael grwpiau o bobl at ei gilydd i wneud yn siŵr y gall pawb gael llais am eu barn am benderfyniadau yn Sir Fynwy.
- cynnwys pobl o bob oed a chael dyfarniad gan **Sefydliad Iechyd y Byd.**




- dechrau grŵp ar gyfer pobl anabl i ddweud beth maent yn feddwl.
- helpu i atal trais yn erbyn menywod a merched.



- cael cynllun ar gyfer pobl sy'n methu cael unrhyw arian.
- defnyddio gwybodaeth yn well i helpu atal troseddau.



- helpu mwy gyda tai ar gyfer pobl sy'n dod i'n gwlad ni i fod yn ddiogel.
- cael gwobr am fod yn lle diogel i fyw ar gyfer pobl o wledydd eraill sy'n lesbian, hoyw, deurywiol neu drawsrywiol.




- gwneud yn siŵr fod pawb yn gallu talu am **gynnyrch mislif.** Mae **cynnyrch mislif** yn golygu pethau fel tamponau, pants mislif a phadiau.

Amcan 4

# Bywydau iach am hirach



Rydyn ni eisiau cael mwy o wasanaethau yn y gymuned sy'n gallu helpu pobl i gael bywydau iach am hirach.




Rydyn ni'n gwybod:

- bod dynion yn iach fel arfer nes eu bod tua 70 oed, a menywod fel arfer yn iach nes eu bod tua 71 oed.




- nad yw pobl mewn ardaloedd tlawd yn byw mor hir â phobl eraill, neu aros yn iach am mor hir.
- bod teuluoedd tlawd yn gorfod gwario llawer o'r arian maent yn ei ennill i wneud prydau iach.



- bod pobl sydd â salwch neu anabledd yn llawer llai tebygol o ymarfer.

**Ein nodau**

Byddwn yn anelu i



- wneud yn siŵr fod cynlluniau newydd ar gyfer cerdded a beicio yn cyrraedd yr ardaloedd lle rydyn ni'n gwybod fod pobl yn gwneud llai o ymarfer.




- rhoi gwahanol gyfleoedd i bobl fod yn iach ac yn egnïol. Mae hyn yn cynnwys prosiect a elwir y **Cynllun Cenedlaethol i Atgyfeirio Cleifion i wneud Ymarfer Corff**




- helpu grwpiau lleol i ddweud wrth bobl am anghydraddoldeb iechyd a gwybodaeth mewn ardaloedd tlawd.



- helpu grwpiau lleol i helpu pobl sy'n unig, yn arbennig yn y wlad.


Amcan 5

# Gwasanaethau hygyrch





Rydyn ni eisiau gwneud yn siŵr fod ein gwasanaethau yn **hygyrch.** Bydd hyn yn golygu y gall pobl wneud y pethau maen nhw eisiau eu gwneud.

Mae **hygyrch** yn golygu fod pawb yn medru eu defnyddio.



Rydyn ni yn gwybod

- na fydd llawer o bobl dros 70 oed yn defnyddio cyfrifiaduron ac apiau i helpu gyda'u hiechyd.




- ei bod yn cymryd llawer o amser i deithio i leoedd fel meddygon, llyfrgelloedd a chanolfannau hamdden yn Sir Fynwy.
- bod tua 7% o bobl yn Sir Fynwy yn anabl ac yn ei chael yn anodd teithio.



- bod pobl ifanc sy'n gofalu am rywun adre yn fwy tebyg o fyw mewn ardaloedd tlawd a cholli'r ysgol weithiau.

**Ein nodau**
Byddwn yn anelu




- gwneud yn siŵr fod ein adeiladau yn hygyrch i'r bobl sy'n eu defnyddio.
- cael mwy o doiledau hygyrch mewn canol trefi.




- gwneud ein gwybodaeth yn hygyrch i bawb.



- meddwl bob amser am sut mae pethau o'u hamgylch yn gwneud pobl yn anabl. Fe ddylem ni feddwl am hyn pryd bynnag y newidiwn ein gwasanaethau.



- dweud wrth bobl am gyrsiau lle gallant ddysgu sgiliau **digidol.** Mae **digidol** yn golygu sut i ddefnyddio pethau fel cyfrifiaduron ac apiau.
- cael mwy o staff sy'n siarad Cymraeg.



- gwneud yn siŵr y gall pobl ddewis pa iaith maen nhw eisiau ei defnyddio yn eu gofal.
- rhoi hyfforddiant i'n holl staff am gydraddoldeb.
- gwirio system a ddefnyddiwn a elwir yn **Asesiad Effaith Integredig**.

Amcan 6

# Lle amrywiol a chynhwysol i weithio



Rydyn ni eisiau i'n cyngor fod yn lle da i weithio, lle mae staff yn hapus ac yn gwybod y byddant yn cael eu trin yn deg. Mae **amrywiol** yn golygu fod cymysgedd dda o bobl.

Rydyn ni'n gwybod


- mai menywod yw 73% o'n staff

- bod 2% o'n staff wedi dweud wrthyn ni fod ganddyn nhw anabledd

**Ein nodau**

Byddwn yn anelu

- Ennill teitl **hyderus o ran anabledd.** Byddwn yn cael Lefel 2 yn y flwyddyn gyntaf yna Lefel 3.




- Ysgrifennu cynllun i helpu staff **niwroamrywiol.** Mae **niwroamrywiol** yn golygu fod eich ymennydd yn gweithio mewn ffordd wahanol i bobl eraill ac mae hyn yn effeithio ar eich bywyd.



- cael y cyfuniad cywir o staff gyda gwahanol gefndiroedd.

- cael mwy o wybodaeth am wahanol grwpiau o bobl.



- rhoi hyfforddiant i'n staff am sut i fod yn gynhwysol ac amrywiol yn y gwaith.

- sefydlu grwpiau staff i roi gwybodaeth am bobl nad ydyn nhw efallai yn cael eu cynnwys yn y gwaith.

Amcan 7

# Cyflog cyfartal




Yn aml mae dynion yn cael mwy o gyflog na menywod am wneud yr un swydd. Rydyn ni eisiau gwneud eu cyflogau yn fwy cyfartal. Bydd hyn yn arwain at fywyd gwell i fenywod pan maent yn hŷn.

Rydyn ni'n gwybod:



- allan o'r holl deuluoedd yng Nghymru sydd ag 1 rhiant, mae 90% ohonynt yn fenywod ac mae'r rhan fwyaf yn debygol o fod yn dlawd iawn.




- mae llawer mwy o fenywod nag o ddynion yn gweithio'n rhan-amser.



- mae angen gofal plant ac edrych ar ôl plant yn rhesymau mawr sy'n gwneud cyflogau yn wahanol rhwng dynion a menywod.



**Ein nodau**
Byddwn yn anelu i:

- gwneud yn siŵr fod staff rhan-amser yn medru cael swyddi mor rhwydd â staff llawn-amser.




- gwirio ein bod bob amser yn talu cyflog cyfartal a gwneud yn siŵr fod pobl yn gwybod sut ydyn ni'n gweitho mas faint i'w dalu.




- **cyhoeddi** gwybodaeth bob blwyddyn am y gwahaniaeth cyflogau rhwng dynion a menywod. Mae **cyhoeddi** yn golygu rhoi rhywbeth lle mae pawb yn gallu ei ddarllen, tebyg i wefan neu mewn adroddiad.




Diolch i A2i am y geiriau
www.a2i.co.uk (cyfeirnod 39244)

Teitl fersiwn lawn y ddogfen yw "Ymgynghoriad Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-28"